Annwyl Glerc,

Hoffwn ddiolch i chi am gysidro fy neiseb ar Gymeradwyo adeiladu Trydedd Bont dros y Fenai am drafodaeth yn y Pwyllgor Deisebau a hefyd ymestyn diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ymateb.

I ddechrau, hoffwn groesawu ei sylwadau ar y gwelliannau sy'n digwydd i Bont Menai. Mae'r rhain yn welliannau strwythurol sydd wedi bod yn angenrheidiol ers amser hir, ac rwy'n falch o weld bod y gwaith, bellach, yn dechrau ar hyn. Er hynny, ni chyfeiriodd y Gweinidog i'r cyfnod ym mis Hydref 2022 pan gafodd y bont ei gau, a ni wnaeth o ymateb yn ddigonol i'r ddeiseb yn gyfan gwbl.

Roedd fy neiseb yn benodol iawn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymeradwyo adeiladu'r Drydedd Bont dros y Fenai, fel gwnaethant nhw addo nifer o weithio pan gafodd y prosiect ei gymeradwyo yn wreiddiol a phan gafodd llwybr ei ddewis. Cytunodd yr Arolwg Ffyrdd ei hun byddai cymeradwyo'r prosiect yn gwella diogelwch a gwytnwch, a bydd yn caniatáu mwy o ddarpariaeth teithio actif. Nid yw defnyddio Newid Hinsawdd fel yr unig reswm yn hollol deg, yn enwedig pan gall prosiectau fel hyn fod yn gatalyddion i brosiectau sy'n llesol i'r hinsawdd yn y dyfodol. Rydym i gyd yn cytuno fod angen cyfeirio at y problemau Newid Hinsawdd, ond ni ddylai hyn olygu na fedrwn ni ddefnyddio datrysiadau arloesol i daclo problemau heddiw.

Mae gwytnwch yn un o'r prif ddadleuon o blaid Trydedd Groesfan, ac mae'r gwelliannau gwytnwch ar Bont Menai, fel cyfeiriais atynt yn gynharach, yn groesawgar iawn, ond nid yw hyn yn cyfeirio at be ddigwyddir os oes rhaid i Bont Britannia gau am unrhyw gyfnod o amser, Ni fydd Bont Menai yn medru ymdopi â'r lefelau yma o draffig. Mae'r lefelau o dagiant dros y ddwy bont hefyd yn ffactor. Does neb yn hoffi bod yn sownd mewn traffig, ac mae dyluniadau gwael y lonydd sy'n arwain at y pontydd yn un o'r prif achosion o'r lefelau yma o dagiant.

Bydd trydedd groesfan wedi creu ffordd effeithiol i nid yn unig gwaredu'r tagiant dros Bont Britannia, ond gall hefyd helpu i leihau llawer o'r tagiant dros Bont Menai a'r ardaloedd o gwmpas Porthaethwy a Bangor Uchaf, tra ei fod hefyd yn rhoi cysylltiad newydd i wella gwytnwch i'r rheini sy'n trafaelio'n rheolaidd rhwng Ynys Môn a Gwynedd.

Hoffwn hefyd cyfeirio'n benodol at arolwg Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wnaeth y Gweinidog gyfeirio ato yn ei ymateb. Rwy'n croesawu'r opsiynau maent yn cysidro ac rwy'n cytuno hefo blaenoriaethau'r comisiwn, ond mae rhai o'r opsiynau dan sylw, mwy neu lai angen bod Trydedd Bont yn cael ei hadeiladu mewn rhyw ffordd. Byddai darpariaeth o Drafaelio Actif dros Bont Britannia yn amhriodol heb Drydedd Groesfan i ddargyfeirio'r A55 gan fydd yn anniogel gyda'r lefelau cyfredol o draffig. Byddai gwellau amlder bysiau hefyd yn anodd heb y cymhwysedd ychwanegol bydd Trydedd Bont yn rhyddhau o'r croesfannau cyfredol dros y Fenai.

Gallwn ddefnyddio HS2 fel enghraifft o'r hyn ble mae rhwydwaith rheilffordd Cyflymder-Uchel newydd yn cael ei adeiladu er mwyn rhyddhau tagiant ar hyd coridor yr Arfordir Gorllewinol ac yn caniatáu mwy o barthau ar gyfer gwasanaethau lleol, rhanbarthol a chludiant tra bod y traffig cyflym yn symud i reilffordd ei hun. Dyma'r model gall Trydedd Bont dros y Fenai ei ddosbarthu drwy ryddhau'r tagiant ar hyd Pontydd Menai a Britannia, i ganiatáu mwy o gymhwysedd ar gyfer Trafaelio Actif drwy ddargyfeirio'r traffig cyflymach.

Hoffwn weld mwy o drefniadau Trafaelio Actif i gysylltu Ynys Môn a Gwynedd, ond drwy ganslo'r Drydedd Groesfan yn gyfan gwbl, mae'n rhoi marc cwestiwn ar lawer o'r cynigion yma. Hoffwn hefyd weld sifft foddol i ffwrdd o ddefnyddio trafnidiaeth bersonol i drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig tuag at y rheilffyrdd, ond nid yw'r rhain yn golygu na ddylai adeiladu Trydedd Bont.

Rwyf hefyd yn deall bod y Panel Adolygu Ffyrdd wedi rhestru ambell i amod dylai cynlluniau ffyrdd eu hateb cyn mynd ymlaen, a hoffwn gynnig sut all Trydedd Groesfan dros y Fenai cwrdd â'r rhain:

- Dylai'r cynllun geisio lleihau allyriadau carbon mewn gwaith adeiladu

Fedrwn ni gyfeirio yn ôl i HS2 a defnyddio ambell i dechneg maent wedi mabwysiadu i adeiladu’r Draphont Colne Valley. Gall ddefnyddio rhwydwaith y rheilffordd hefyd i gludo defnydd, ac mae llawer o dechnegau adeiladu llesol i’r hinsawdd wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol.

- Ni ddylai’r cynllun gynyddu capasiti’r ffyrdd ar gyfer ceir

Unwaith mae Trydedd Bont wedi’i hadeiladu, gall ail-bwrpasu Bont Britannia er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer Trafaelio Actif a Thrafnidiaeth Gyhoeddus yn unig. Mae’n anochel bydd ychydig o gynnydd mewn cynhwysedd, ond ni fydd hyn yn golygu byddai mwy o geir ar y lôn os caiff Trydedd Bont ei hadeiladu.

- Ni ddylai’r cynllun arwain at gyflymder uwch i gerbydau sy’n cynyddu allyriadau

Drwy roi cyfradd cyflymder o 50myh, ni fydd cyflymder cerbydau yn uwch na’r cyflymder uchaf a ganiateir ar Bont Britannia, ond bydd y lleihad mewn tagiant yn debygol o arwain at lai o allyriadau gan na fydd cerbydau’n segur am gyfnodau hir a bydd amser siwrneiau dros y Fenai yn gostwng o ganlyniad i’r hyn

- Ni ddylai’r cynllun gael effaith andwyol ar safleoedd sy’n werthfawr yn ecolegol


Er ni rwy’n hollol siŵr ar ba effaith geith hyn ar safleoedd sy’n werthfawr yn ecolegol yn yr ardal, dwi’n siŵr mae’n bosib lleihau hyn gyda’r cynllun iawn

Gan gysidro’r elwau gyfan gwbl gan Drydedd Groesfan, hoffwn wybod os gafodd unrhyw ddatrysiad i amodau’r Panel Adolygu Ffyrdd eu hymchwilio’n bellach.

Er bod ganddo fwriadau dau, rwy’n credu fod y Gweinidog wedi gwneud camgymeriad dwys drwy ganslo Trydedd Groesfan y Fenai yn gyfan gwbl. Rwyf, felly, yn annog y Gweinidog i edrych yn fwy manwl ar y cynllun a chysidro’n fwy eang am gymeradwyo ei hadeiladu. Rwy’n cytuno hefo’i blaenoriaethau i i wella Trafaelio Actif a hoffwn weld sifft fawr tuag at Drafnidiaeth Gyhoeddus, yn enwedig i’r rheilffyrdd, ond mae angen i ni edrych yn fwy adeiladol ar y prosiect yma na ddweud yn syml ni fedrith o fynd yn ei falen.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i’r Pwyllgor Deisebau am gysidro fy neiseb am drafodaeth yn y cyfarfod ar yr 11eg o Fedi ac rwy’n edrych ymlaen at ei wylio. Os oes angen imi roi mwy o wybodaeth, mae croeso i chi adael imi wybod a byddwn yn ymdrechu i ymateb cyn gynted a fyddai’n bosib.

Yn gywir,



**Emyr Owen**